OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 1235

## Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016

**Pennu gweithwyr gofal cymdeithasol**

**3.**—(1) Mae'r gweithwyr gofal cymdeithasol a ddisgrifir ym mharagraff (2) wedi eu pennu at ddibenion adran 80(1)(b) o'r Ddeddf (y gofrestr).

(2) Y gweithwyr gofal cymdeithasol a ddisgrifir yw'r personau hynny—

(a) sy'n rheoli man y darperir gwasanaeth rheoleiddiedig([1])ynddo neu ohono;

(b) sydd, yn ystod eu cyflogaeth gyda darparwr gwasanaeth([2]), yn darparu gofal a chymorth i unrhyw berson yng Nghymru mewn cysylltiad—

(i) â gwasanaeth cartref gofal o fewn ystyr Rhan 1 o'r Ddeddf a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, neu

(ii) â gwasanaeth llety diogel o fewn ystyr paragraff 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf,

a ddarperir gan y darparwr hwnnw;

(c) sy'n ymgymryd ag unrhyw gwrs a gymeradwyir gan GCC o dan adran 114(1)(a) o'r Ddeddf (cymeradwyo cyrsiau etc.) er mwyn cael eu cofrestru yn y rhan gweithwyr cymdeithasol o'r gofrestr.

(**1**) I gael ystyr "gwasanaeth rheoleiddiedig", gweler adran 2 o'r Ddeddf.
(**2**) I gael ystyr "darparwr gwasanaeth", gweler adran 3(1)(c) o'r Ddeddf.